**Dyfarniadau Rheoleiddiol**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf 1996 i reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

O dan adran 33A(1) o Ddeddf Tai 1996, gall Gweinidogion Cymru osod safonau perfformiad (y safonau rheoleiddio) y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu cyrraedd mewn perthynas â'u swyddogaethau o ran darparu tai a materion yn ymwneud â'u trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol.

O dan adran 33B(1) o Ddeddf 1996, gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â mater y mae safon yn mynd i'r afael ag ef, ac yn pwysleisio'r safon honno. Mae Adran 33A o Ddeddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â gwahanol gyrff cyn gosod safonau o dan adran 33A neu gyhoeddi canllawiau o dan adran 33B.

Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru (Ionawr 2022) yn nodi'r safonau rheoleiddiol o dan adran 33A o Ddeddf 1996. Caiff y gofyniad i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r safonau rheoleiddio (lefelau perfformiad) a chyhoeddi dyfarniadau rheoleiddiol ei wneud o dan adran 35 o Ddeddf 1996.

Mae Pennod 4A o Ran 1 o Ddeddf 1996 yn nodi'r pwerau gorfodi sydd ar gael i Weinidogion Cymru.

Mae dyfarniadau rheoleiddiol wedi'u cynllunio i roi dealltwriaeth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r canlynol:

- Llywodraethu a darparu gwasanaethau
- Hyfywedd ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

**Statws dyfarniadau**

Cyhoeddir dyfarniadau rheoleiddiol ar gyfer Llywodraethu (gan gynnwys Darparu Gwasanaethau) a Hyfywedd Ariannol. Disgrifir pob statws yn yr un ffordd ym mhob achos, ac maent wedi'u nodi yn y tabl isod:

| **Dyfarniad** | | |
|---|---|---|
| Cydymffurfiaeth | **Gwyrdd** | Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio a bydd yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol arferol. |
| | **Melyn** | Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae ganddi'r potensial i allu cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol gyda mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol. |
| Diffyg cydymffurfiaeth | **Oren** | Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio yn rhannol ac nid yw'n debygol o allu cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol heb ymyrraeth reoleiddiol. |
| | **Coch** | Nid yw'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio yn rhannol neu'n gyfan gwbl ac mae angen i'r rheoleiddiwr gymryd camau gweithredu statudol. |

**Hysbysiadau o Ddyfarniadau sy'n Destun Adolygiad**

**Dyfarniadau Rheoleiddiol**